Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Hafan y Waun**

**Hafan y Waun**
**Waunfawr**
**Aberystwyth**
**SY23 3AY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Hafan y Waun

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion |
| Lleoedd cofrestredig | 90 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae darparwr newydd wedi cymryd awenau’r gwasanaeth yn ddiweddar. Caiff ei arwain yn effeithiol gan reolwr a dirprwy sy'n wybodus ac yn angerddol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol newydd yn ymgynghori â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Caiff y wybodaeth o'i hadroddiadau o ymweliadau chwarterol ei defnyddio i lywio ei hadolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis.

Mae'r bobl yn ymddangos yn hapus iawn â'r gwasanaeth a gânt a chânt eu cefnogi gan dîm o staff cyfeillgar a gofalgar. Mae'r gweithwyr gofal yn frwdfrydig am eu rolau ac am y bobl a gefnogir ganddynt, dywedodd un *“The residents are lovely. I love working with them”.* Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol am y gwahaniaeth y mae'r gwasanaeth yn ei wneud.

Mae'r amgylchedd sydd wedi'i ddylunio'n dda yn diwallu anghenion y bobl, yn gyfforddus, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan. Mae gan y darparwr gynllun ar waith i wella agweddau mewnol ac allanol y cartref, er budd y bobl. Caiff atgyweiriadau o ddydd i ddydd eu cwblhau'n gyflym gan y tîm cynnal a chadw mewnol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth rhagorol sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn cael eu parchu ac mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd sy'n gyfeillgar ac yn hamddenol â nhw. Mae rhaglen weithgareddau gynhwysfawr yn sicrhau bod y bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt, fel ymarfer corff, garddio, gwasanaethau crefyddol, diwrnodau thema a digwyddiadau sy'n galluogi'r bobl i gymdeithasu â'i gilydd ac â'u teulu a'u ffrindiau. Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth; dywedodd un, *"They are always laughing and I look forward to coming in".* Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n cynnig y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Gwelsom y staff yn newid o'r Gymraeg i'r Saesneg yn fedrus er mwyn sicrhau bod y bobl yn cyfathrebu yn eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan fod prosesau recriwtio yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfnod sefydlu trylwyr a chyfleoedd datblygu parhaus effeithiol ac maent yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y rheolwr.

Caiff y bobl eu hannog i fod mor annibynnol a chymdeithasol ag y bo modd gan fod yr adeilad wedi'i gynllunio'n dda. Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant. Mae'r bobl yn defnyddio'r gwahanol ardaloedd i wneud pethau maent yn eu mwynhau, er enghraifft, cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol a rhyngweithio â'i gilydd, â'r staff, ac ymwelwyr. Mae'r gerddi'n hygyrch a gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae gan y bobl lais ac maent yn cyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys nhw a/neu eu cynrychiolwyr yn y broses sicrhau ansawdd. Mae'r prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff sy'n gweithio yn y cartref.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn ymddangos yn hapus iawn ac yn fodlon â'r gofal a'r cymorth hynod effeithiol a roddir iddynt. Mae'r gweithwyr gofal yn parchu'r bobl a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio sensitif ac ystyrlon rhwng y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn eu cefnogi yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym *"The reason I come into work is to make a difference and it's a nice way to give people something positive".* Mae cynrychiolwyr y bobl hefyd yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth, dywedodd un wrthym, *"I can't praise the staff enough. They go above and beyond".*

Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chynnal y cynlluniau personol. Mae'r uwch-staff yn adolygu'r cynlluniau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyfredol, ac mae'r rheolwr yn bwriadu gwella'r broses o gofnodi'r adolygiadau. Mae'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cymryd rhan yn effeithiol, ac mae eu harweiniad yn helpu i wella llesiant cyffredinol y bobl. Er enghraifft, mae cynlluniau prydau bwyd creadigol wedi helpu llawer o'r bobl i fagu pwysau a dilyn dull rhagweithiol o gael cymorth holistig yn hytrach na defnyddio meddyginiaeth. Caiff asesiadau risg eu datblygu ynghylch anghenion penodol pob unigolyn, ac maent yn annog annibyniaeth. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau a roddir ar y bobl yn cael eu gwneud yn gyfreithiol, a bod y ddogfennaeth gywir ar waith. Mae nodiadau dyddiol manwl yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a roddwyd ac mae'r rheolwr yn bwriadu eu gwella, drwy gynnwys gwybodaeth fanylach o safbwynt yr unigolyn.

Mae cydgysylltwyr gweithgareddau brwdfrydig yn trefnu amrywiaeth eang o weithgareddau, fel aromatherapi, dawnsio, garddio, barddoniaeth a digwyddiadau â thema. Mae ffocws ar gyfranogiad cymunedol ac mae digwyddiadau fel profiadau bwyta i gyplau yn rhoi'r cyfle i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth gymdeithasu gyda phobl y tu allan i'r cartref. Gall y bobl dreulio amser gyda'u teulu a'u ffrindiau yn eu hystafelloedd eu hunain, mewn ardaloedd cymunedol tawel neu ardaloedd cymdeithasol eraill fel y siop de a'r ystafell gwasanaethau crefyddol.

Mae'r systemau storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol. Mae'r dirprwy yn sicrhau y caiff meddyginiaeth ei rheoli'n briodol a bod y staff yn cymryd amser i roi'r dosau cywir o feddyginiaeth i'r bobl ar yr amser cywir. Mae archwiliadau rheolaidd yn sicrhau y caiff problemau o ran meddyginiaeth eu nodi ac y gweithredir arnynt, ac y rhoddir gwybod amdanynt yn briodol.

Mae'r darparwr wrthi'n recriwtio staff newydd. Ar adeg yr arolygiad cafodd gweithwyr asiantaeth rheolaidd eu defnyddio er mwyn sicrhau bod digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol a phwyllog yn ystod yr arolygiad.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn fawr, a chaiff ei gynnal a'i gadw'n dda gan dîm cadw tŷ a thîm cynnal a chadw dynodedig. Mae'r ardaloedd cymunedol sydd wedi'u dylunio'n ofalus fel y caffi, yr ystafell weithgareddau, y lle trin gwallt a'r lolfeydd amrywiol yn helpu'r bobl i ymgysylltu â'i gilydd, eu hymwelwyr, a'r tîm o staff. Mae'r drysau wedi cael eu paentio â lliwiau llachar er mwyn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o amgylch yr adeilad, a dywedodd y staff wrthym am y gwahaniaeth y mae'r cynlluniau lliw wedi'i wneud i annibyniaeth y bobl Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd unigol â'u technoleg, lluniau, ornamentau a dodrefn eu hunain.

Caiff y gerddi sydd wedi'u dylunio'n dda eu defnyddio mewn tywydd cynhesach. Mae gweithgareddau fel garddio ysgafn a'r gemau â phêl yn manteisio ar yr ardal awyr agored sydd ar gael. Mae'r darparwr yn bwriadu gwella'r safle ymhellach er mwyn gwella llesiant y bobl.

Mae'r cartref yn olau ac yn ffres, ac mae lluniau o'r ardal leol yn helpu'r bobl i ymgysylltu â'u cymuned. Mae'r darparwr wedi cynllunio rhaglen uwchraddio, mae wedi ailosod y lloriau yn yr ystafelloedd unigol ac mae'n bwriadu parhau gwneud hyn yn yr ardaloedd cymunedol hefyd. Mae'r darparwr yn sicrhau bod cyfarpar ar gael i'r bobl ei ddefnyddio sy'n cynnal eu hurddas a'u hannibyniaeth. Yn gyffredinol, mae tîm cynnal a chadw'r gwasanaeth yn sicrhau y caiff gwaith atgyweirio a gwelliannau eu cwblhau pan fo angen.

Caiff archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd eu cwblhau o'r eiddo a'r cyfarpar. Mae'r profion diogelwch tân yn gyfredol ac mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra at yr unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid bwyd o dri ac mae'r darparwr wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan y Swyddog Iechyd Amgylcheddol. Mae'r bobl yn mwynhau'r opsiwn o gael profiad bwyta cymdeithasol gyda'i gilydd neu o gael bwyta'n dawel ar eu pen eu hunain, neu mewn grŵp bach. Caiff amser ac amrywiaeth y prydau bwyd eu hystyried er mwyn helpu'r bobl i aros mor iach â phosibl. Dywedodd un cynrychiolydd, *"The food is great, she's gained weight since coming back from hospital".*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr newydd wedi cymryd awenau’r gwasanaeth yn ddiweddar, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr newydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwasanaeth. Mae gan y darparwr drefniadau ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r cartref yn effeithiol ac yn gofyn am adborth ar y gwasanaeth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal bob tri mis. Gwelsom y caiff yr adborth gan y bobl ac o'r archwiliadau amrywiol ei ddefnyddio i nodi meysydd i wella'r gwasanaeth cyffredinol yn yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal, a gynhelir bob chwe mis.

Mae'r rheolwr a'r dirprwy yn cydweithio'n agos ac wedi creu diwylliant cadarnhaol yn y gwasanaeth. Mae'r ddau i'w gweld yn amlwg o amgylch y cartref, maent yn adnabod y bobl yn dda ac yn galluogi'r staff i lwyddo yn eu rolau. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cyfeillgar rhwng y rheolwr â'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Mae'r cynrychiolwyr yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth effeithiol sydd i'w gweld yn y gwasanaeth, dywedodd un,*“[Manager] and [Deputy] are available, always greet me when I arrive and if I had a problem I’d be confident to talk to them”.* Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwr yn gefnogol iawn ac yn hawdd mynd ati, a'u bod yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored sydd ganddi.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol, a gallant drafod unrhyw beth â'u rheolwyr llinell, unrhyw bryd. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, *“[Manager] is great, approachable and easy to talk to”.* Mae trafodaethau â'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o ddiogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw faterion yn briodol. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n cefnogi arferion da.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae’r rhain yn cynnwys geirdaon, gwiriadau hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae aelodau newydd o staff yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae amrywiaeth o hyfforddiant e-Ddysgu ac wyneb yn wyneb yn helpu'r staff i ddiwallu anghenion y bobl, a dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym,*“Some of the training is a refresher and other bits really open your mind”.* Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau ‘Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol’ ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio gweithwyr asiantaeth rheolaidd er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl yn effeithiol. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio pwyllog a llawn anogaeth rhwng y bobl a'r tîm cyfan o staff. Mae llawer o'r gweithwyr gofal rheolaidd wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers blynyddoedd ac wedi meithrin cydberthynas dda â'r bobl.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/07/2024